

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

8/2025

DYDDIAD CYHOEDDI:

22/01/2025

# Y Gronfa Cymorth Dewisol: adroddiad dadansoddol 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

**OGI** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-146-2

# Y Gronfa Cymorth Dewisol

## adroddiad dadansoddol 2024

Sheilla Ferraz-Luz (Llywodraeth Cymru)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Ferraz-Luz, S. (2024) *Y Gronfa Cymorth Dewisol: Adroddiad Dadansoddol 2024*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 8/2025  
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/y-gronfa-cymorth-dewisol-adroddiad-dadansoddi-2024>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Sheilla Ferraz-Luz

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru](mailto:ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru)

## Cynnwys

Rhestr o'r tablau .....	2
Rhestr o'r ffigurau .....	3
1. Cyflwyniad .....	4
2. Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a gafwyd gan unigolion yn ôl oedran.....	6
3. Y gwahaniaethau rhwng Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion.....	9
4. Budd-daliadau: Credyd Cynhwysol a budd-daliadau gwaddol .....	11
5. Dangosyddion economaidd: parseli bwyd i oedolion ac anweithgarwch economaidd .....	13
6. Dangosyddion plant mewn tlodi .....	15
7. Casgliadau .....	17

## Rhestr o'r tablau

Tabl 1: Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran (mis Mai 2023 i fis Mai 2024).....	6
Tabl 2: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa neu fudd-daliadau penodol, fesul awdurdod lleol .....	11
Tabl 3: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa, a dangosyddion economaidd eraill yn ôl awdurdod lleol .....	13
Tabl 4: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa, a dangosyddion tlodi plant, yn ôl awdurdod lleol .....	15

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Dosbarthiad nifer y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a gafwyd gan eu derbynwyr, yn ôl oedran (mis Mai 2023 i fis Ebrill 2024).....	7
Ffigur 2: Nifer cyfartalog y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran .....	8
Ffigur 3: Dosbarthiad dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion yn ôl grŵp oedran .....	9
Ffigur 4: Dosbarthiad gwahanol ffyrdd o gael mynediad at y Gronfa yn ôl oedran .....	10

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Cronfa pan fetha popeth arall i'r rhai sy'n profi argyfwng ariannol ac heb unrhyw fath arall o gymorth yw'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'n un o amrywiaeth o ddulliau sydd gan Llywodraethau Cymru a'r DU o roi cymorth i helpu grwpiau sydd dan anfantais yng Nghymru<sup>1</sup>.
- 1.2 Mae'r rhai sydd eisoes dan anfantais hefyd yn arbennig o sensitif i'r hinsawdd economaidd ehangach, gan gynnwys parhau i ddod dros heriau costau byw parhaus, y gyfradd chwyddiant a'r newidiadau amrywiol yng nghost ynni gyda chapiau uwch wedi'u gosod ar brisiau ynni yn ystod 2023-24.
- 1.3 Mae'n debygol bod cyfuniad o'r ffactorau hyn, a'r cymorth ychwanegol a ddarperir gan lywodraethau Cymru a'r DU i helpu i liniaru'r effeithiau andwyol ar grwpiau difreintiedig, wedi cael effaith uniongyrchol ar y galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol. Efallai bod penderfyniadau eraill sy'n ymwneud â chymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yng Nghymru hefyd wedi effeithio ar lefel y galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol (y Gronfa) yn y cyfnod hwn.
- 1.4 Mae'r Gronfa yn cynnig dau fath o daliad: Mae Taliadau Cymorth i Unigolion yn helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi neu mewn eiddo y maen nhw'n symud iddo. Mae Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn helpu i dalu am gostau hanfodol, megis bwyd, nwy, trydan, dillad neu deithio mewn argyfwng.
- 1.5 Mae dau nod i'r adroddiad hwn. Y cyntaf yw cyflwyno dadansoddiad o'r rhai sy'n cael cymorth gan y Gronfa o ran eu hoedran a'r ffyrdd y mae unigolion yn cael mynediad at daliadau o'r Gronfa. Yr ail yw archwilio dyfarniadau'r Gronfa yn 22 awdurdod lleol Cymru i weld a oes unrhyw batrymau newydd mewn dangosyddion economaidd penodol a allai egluro nifer y dyfarniadau ym mhob awdurdod lleol.

---

<sup>1</sup> Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Gronfa Gyngori Sengl, cymorth brys gyda bwyd a thanwydd, a chost y diwrnod ysgol. Llywodraeth y DU sy'n darparu'r system budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, y taliadau costau byw, y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes ac, yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, y Cynllun Cymorth Biliau Ynni.

- 1.6 Mae'r data sy'n gysylltiedig â'r Gronfa yn cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru gan ein darparwr gwasanaeth NEC Software Solutions UK. Nid yw'r wybodaeth reoli hon wedi bod drwy'r un broses sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol ac mae'n bosibl y bydd y data yn cael eu diwygio yn y dyfodol<sup>2</sup>. Gwneir y dadansoddiad mewn gwerthoedd absoliwt y pen. Mae hyn yn golygu bod niferoedd absoliwt wedi cael eu rhannu yn ôl nifer yr unigolion neu nifer yr aelwydydd, neu nifer y plant yn ôl y gwahanol ddangosyddion a ddefnyddiwyd.
- 1.7 Mae'n bwysig nodi bod cyfuniad o lawer o wahanol ddangosyddion yn egluro nifer y dyfarniadau mewn awdurdod lleol, yn hytrach na dim ond un ffactor. Mae rhai o'r dangosyddion hyn i'w gweld yma, megis "unigolion nad ydynt mewn cyflogaeth sy'n cael Credyd Cynhwysol", "cyfradd anweithgarwch economaidd", a "disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim". Mae dangosyddion economaidd eraill sy'n adlewyrchu'r cynnydd mewn chwyddiant a chostau byw ac, er eu bod yn berthnasol i'r data dadansoddi hyn, nid oedd modd dod o hyd iddynt ar lefel awdurdod lleol.

---

<sup>2</sup> [I gael data lefel uchel yn rheolaidd ar daliadau'r Gronfa, ewch i StatsCymru.](#)

## 2. Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a gafwyd gan unigolion yn ôl oedran<sup>3</sup>

2.1 Rhwng mis Mai 2023 a mis Mai 2024, unigolion 30-39 oed gafodd y nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng. Rhoddwyd tua chwech o bob deg dyfarniad (61%) i rai rhwng 16 a 39 oed. Mewn cymhariaeth, roedd unigolion 70 oed a hŷn yn cyfrif am 1% o'r dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (Tabl 1).

**Tabl 1: Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran (mis Mai 2023 i fis Mai 2024)**

Oedran (blynyddoedd)	Nifer yr unigolion	Cyfran yr unigolion a gafodd ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran (%)
16-29	100,025	27
30-39	124,229	34
40-49	76,199	21
50-59	41,818	11
60-69	17,242	5
70+	4,221	1

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2023 a mis Mai 2024

2.2 Yn 2022-23, talwyd £25 miliwn mewn dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng i unigolion o'i gymharu â £19 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2023-24. Roedd y £19 miliwn yn cyfateb i gyfanswm o 234,000 o ddyfarniadau Taliadau


<sup>3</sup> Gwnaed y dadansoddiad oedran â chronfa ddata sy'n cynnwys Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn unig. Mae rhai ymgeiswyr wedi'u tynnu o'r set ddata. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau heb rif yswiriant gwladol, ceisiadau â rhif yswiriant gwladol "dymi" (ymgeiswyr sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches), ceisiadau heb ddyddiad geni neu â dyddiad geni annilys, ac unrhyw geisiadau sydd yn yr arfaeth, hy dim ond ceisiadau y gwnaed penderfyniad arnynt sydd wedi'u cynnwys.



Cymorth mewn Argyfwng a dalwyd yn 2023-24, gostyngiad o 117,000 o 2022-23. Esbonnir y gostyngiad hwn yng ngwerth a nifer y dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn gyffredinol ers 2022-23 yn bennaf gan newid ym mholisi'r Gronfa a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023, lle gostyngodd uchafswm y taliadau o hyd at bum taliad i hyd at dri thaliad fesul hawliwr.

2.3 O ran oedran, pobl iau hawliodd Taliadau Cymorth mewn Argyfwng fwyaf. Mae nifer cyfartalog y taliadau yn gostwng wrth i oedran gynyddu (Ffigur 1).


**Ffigur 1: Dosbarthiad nifer y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a gafwyd gan eu derbynwyr, yn ôl oedran (mis Mai 2023 i fis Ebrill 2024)**



Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2023 a mis Ebrill 2024

2.4 Ymhlith y rhai 50 oed a hŷn roedd taliadau'r Gronfa ar gyfartaledd yn cael eu gwneud ddwywaith, o gymharu â thri taliad ar gyfartaledd i unigolion 16-49 oed (Ffigur 2).

**Ffigur 2: Nifer cyfartalog y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran**



Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2023 a mis Ebrill 2024


### 3. Y gwahaniaethau rhwng Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion

3.1 Yn y flwyddyn 2023-24, talwyd £15 miliwn i unigolion trwy 15,000 dyfarniad o Daliadau Cymorth i Unigolion, gostyngiad o 600 yn nifer y dyfarniadau o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, cynyddodd cyfanswm gwerth dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion £268,000 yn y flwyddyn ariannol 2023-24.

3.2 Er bod 95% o ddyfarniadau'r Gronfa yn Daliadau Cymorth mewn Argyfwng a'r 5% arall yn Daliadau Cymorth i Unigolion ym mhob grŵp oedran, nid yw dosbarthiad y dyfarniadau yn ôl oedran yr un fath.

3.3 Roedd dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng wedi'u cronni fwy ymhlith unigolion iau, gyda 61% yn cael eu dyfarnu i unigolion rhwng 16 a 39 oed. Ar y llaw arall, rhannwyd Taliadau Cymorth i Unigolion bron yn gyfartal rhwng pobl ifanc 16-39 oed (49%) ac unigolion 40 oed a hŷn (51%). (Ffigur 3).

**Ffigur 3: Dosbarthiad dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion yn ôl grŵp oedran**




Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2023 a mis Mai 2024

3.4 Wrth archwilio dosbarthiad dyfarniadau'r Gronfa yn ôl awdurdodau lleol a chategorïau oedran gwelir nad yw'r cymedr ar gyfer pob awdurdod lleol yn wahanol i gymedr cyffredinol yr holl awdurdodau lleol gyda'i gilydd, hy nid oes unrhyw awdurdod lleol sy'n groes i'r gweddill. Mewn geiriau eraill, mae dosbarthiad cyfanswm dyfarniadau'r Gronfa yn ôl oedran yn debyg ar draws yr holl awdurdodau lleol.

3.5 O ran hygyrchedd, fe gafodd 99% o'r unigolion fynediad at y Gronfa ar-lein. Fodd bynnag, pan edrychwn ar bawb sy'n cael mynediad at y Gronfa ar-lein o gymharu â'r rhai sy'n gwneud hynny dros y ffôn, mae grwpiau oedran hŷn yn defnyddio'r ffôn yn fwy na grwpiau oedran iau (Ffigur 4).<sup>4</sup>

3.6

**Ffigur 4: Dosbarthiad gwahanol ffyrdd o gael mynediad at y Gronfa yn ôl oedran**



Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2023 a mis Mai 2024

<sup>4</sup> Gellir gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig hefyd, ond mae llai na 0.01% o'r ceisiadau a ddaw i law yn rhai ysgrifenedig.

## 4. Budd-daliadau: Credyd Cynhwysol a budd-daliadau gwaddol

4.1 Mae'r tabl a ganlyn (Tabl 2) yn dangos nifer y dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ochr yn ochr â'r gyfran o'r boblogaeth sy'n cael Credyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth; sy'n cael Cymhorthdal Incwm; a sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'r celloedd wedi'u graddliwio yn dangos gwerthoedd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y dangosydd hwnnw.

**Tabl 2: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa neu fudd-daliadau penodol, fesul awdurdod lleol**

Awdurdod Lleol	Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng	Unigolion Credyd Cynhwysol ddim mewn	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion
Ynys Môn	7%	11%	0.4%	6%	0.6%
Gwynedd	7%	8%	0.3%	4%	0.5%
Conwy	7%	11%	0.4%	6%	0.5%
Sir Ddinbych	9%	13%	0.5%	6%	0.6%
Sir y Fflint	7%	10%	0.3%	4%	0.4%
Wrecsam	11%	11%	0.4%	5%	0.8%
Powys	3%	8%	0.3%	5%	0.4%
Ceredigion	3%	9%	0.2%	5%	0.4%
Sir Benfro	5%	11%	0.4%	6%	0.3%
Sir Gaerfyrddin	6%	11%	0.4%	7%	0.6%
Abertawe	9%	12%	0.4%	6%	0.5%
Castell-nedd Port Talbot	10%	14%	0.6%	8%	0.7%
Pen-y-bont ar Ogwr	9%	11%	0.5%	7%	0.4%
Bro Morgannwg	8%	10%	0.4%	5%	0.5%
Caerdydd	10%	11%	0.4%	4%	0.7%
Rhondda Cynon Taf	12%	12%	0.6%	8%	0.5%
Merthyr Tudful	17%	14%	0.6%	8%	0.8%
Caerffili	11%	13%	0.5%	8%	0.5%
Blaenau Gwent	16%	16%	0.6%	9%	0.7%
Torfaen	11%	14%	0.5%	7%	0.7%
Sir Fynwy	4%	8%	0.2%	4%	0.4%
Casnewydd	13%	13%	0.4%	5%	0.9%

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2023 a mis Mai 2024; Unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth: Ystadegau budd-daliadau Adran gwaith a Phensiynau'r

DU (Stat-*Xplore*) Mai 2024; Cymhorthdal Incwm: Ystadegau budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau'r DU (Stat-*Xplore*) Tachwedd 2023; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth: Ystadegau budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau'r DU (Stat-*Xplore*) Tachwedd 2023. Amcangyfrifon poblogaeth i gael amcangyfrifon fesul pen: [Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU \(StatsCymru\)](#) Canol blwyddyn

- 4.2 Y pedwar awdurdod lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng fesul pen oedd Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Roedd Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Casnewydd, a Rhondda Cynon Taf hefyd ymhlith yr awdurdodau lleol â chyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth. Yn ogystal, roedd gan Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf gyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion yn cael Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- 4.3 Roedd Casnewydd, Merthyr Tudful a Wrecsam ymhlith yr awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion fesul pen. Fe'u dilynir yn agos iawn gan Gaerdydd, Castell-nedd Port Talbot, Torfaen a Blaenau Gwent. Roedd Castell-nedd Port Talbot hefyd yn un o'r awdurdodau lleol â chyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion yn cael Credyd Cynhwysol o dan yr amod nad oeddent mewn cyflogaeth, a chyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion yn cael Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

## 5. Dangosyddion economaidd: parseli bwyd i oedolion ac anweithgarwch economaidd

5.1 Mae'r tabl a ganlyn (Tabl 3) yn dangos nifer y dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ochr yn ochr â nifer y parseli bwyd a ddsbarthwyd i oedolion y pen, y gyfradd anweithgarwch economaidd yn yr awdurdod lleol a'r ganran o aelwydydd a effeithir gan y cynnydd mewn rhenti preifat. Mae'r celloedd wedi'u graddliwio yn cyfateb i werthoedd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y dangosydd hwnnw.

**Tabl 3: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa, a dangosyddion economaidd eraill yn ôl awdurdod lleol**

Awdurdod Lleol	Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng	Parseli bwyd a roddir i oedolion	Cyfradd Anweithgarwch Economaidd	Dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion
Ynys Môn	7%	7%	21%	0.6%
Gwynedd	7%	5%	26%	0.5%
Conwy	7%	3%	22%	0.5%
Sir Ddinbych	9%	6%	29%	0.6%
Sir y Fflint	7%	6%	19%	0.4%
Wrecsam	11%	7%	17%	0.8%
Powys	3%	4%	22%	0.4%
Ceredigion	3%	2%	26%	0.4%
Sir Benfro	5%	2%	27%	0.3%
Sir Gaerfyrddin	6%	5%	26%	0.6%
Abertawe	9%	4%	24%	0.5%
Castell-nedd Port Talbot	10%	6%	27%	0.7%
Pen-y-bont ar Ogwr	9%	5%	36%	0.4%
Bro Morgannwg	8%	5%	23%	0.5%
Caerdydd	10%	4%	20%	0.7%
Rhondda Cynon Taf	12%	6%	27%	0.5%
Merthyr Tudful	17%	6%	26%	0.8%
Caerffili	11%	7%	22%	0.5%
Blaenau Gwent	16%	4%	25%	0.7%
Torfaen	11%	5%	23%	0.7%
Sir Fynwy	4%	5%	21%	0.4%
Casnewydd	13%	3%	23%	0.9%

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2023 a mis Mai 2024; Nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i oedolion: [Ystadegau Diwedd Blwyddyn - Ymddiriedolaeth Trussell](#) (data crai) mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024; Amcangyfrifon poblogaeth i gael amcangyfrifon fesul pen: [Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU \(StatsCymru\)](#) Canol y flwyddyn 2023; Cyfradd anweithgarwch economaidd: Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn (llyw.cymru) mis Mawrth 2024; Canran yr aelwydydd mewn awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt gan gynydd mewn rhent preifat yn ystod 2023: [Who is most exposed to rising housing costs in England and Wales? - Office for National Statistics](#) mis Ebrill 2024

- 5.2 Roedd dau o'r awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion y pen, sef Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, ymhlith yr awdurdodau lleol lle dosbarthwyd y mwyaf o barseli bwyd i oedolion fesul pen<sup>5</sup>. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod y ffigurau hyn yn cyfeirio at barseli bwyd ac nid at oedolion sy'n derbyn parseli bwyd. Felly, gallai fod mwy nag un parcel fesul oedolyn<sup>6</sup>.
- 5.3 Roedd gan Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent gyfradd uwch na'r cyfartaledd o anweithgarwch economaidd.
- 5.4 Mae'r term anweithgarwch economaidd yn dynodi unigolion nad ydynt yn rhan o'r farchnad lafur, nad ydynt wedi chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf ac nad ydynt ar gael i ddechrau gweithio. Mae'n cynnwys myfyrwyr, pensïynwyr, pobl sy'n gofalu am deulu neu gartref, y rhai â salwch a'r rhai sy'n cael eu dosbarthu'n weithwyr sydd wedi anobeithio. Amcangyfrifir y gyfradd anweithgarwch economaidd drwy rannu lefel yr anweithgarwch ar gyfer y rhai rhwng 16 a 64 oed â'r boblogaeth ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. At ddibenion cymharu, roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 23.8% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024<sup>7</sup>.

---

<sup>5</sup> Yn ail i Ynys Môn, Wrecsam a Chaerffili lle dosbarthwyd cyfrannau hyd yn oed yn uwch o barseli bwyd.

<sup>6</sup> At hynny, dylai ffigurau Ymddiriedolaeth Trussell gael eu defnyddio fel dangosydd yn unig; mae'r ffigurau hyn yn ymwneud dim ond â banciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell, felly ni ellir eu defnyddio i egluro'n llawn raddfa'r defnydd o fanciau bwyd yng Nghymru, nac o fewn awdurdodau lleol unigol.

<sup>7</sup> [Cyfraddau anweithgarwch economaidd \(gan gynnwys myfyrwyr\) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn \(StatsCymru\)](#)



## 6. Dangosyddion plant mewn tlodi

6.1 Mae'r tabl canlynol (Tabl 4) yn dangos nifer y dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ynghyd â chyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim<sup>8</sup>, nifer y parseli bwyd sy'n cael eu dosbarthu i blant y pen, cyfran yr aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol sydd â hawl i gael budd-dal plant, a chyfran y plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol. Mae'r celloedd wedi'u graddliwio yn cyfateb i werthoedd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y dangosydd hwnnw.

**Tabl 4: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa, a dangosyddion tlodi plant, yn ôl awdurdod lleol**

Awdurdod Lleol	Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng	Disgyblion cymwys i gael prydau ysgol am ddim	Parseli bwyd yn cael eu rhoi i blant	Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â hawl i gael budd-dal plant	Plant o deuluoedd incwm cymharol isel.	Dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion
Ynys Môn	7%	15%	15%	8%	24%	0.6%
Gwynedd	7%	13%	10%	7%	22%	0.5%
Conwy	7%	17%	6%	8%	23%	0.5%
Sir Ddinbych	9%	19%	13%	9%	22%	0.6%
Sir y Fflint	7%	18%	15%	9%	18%	0.4%
Wrecsam	11%	21%	12%	10%	19%	0.8%
Powys	3%	13%	9%	6%	22%	0.4%
Ceredigion	3%	14%	5%	7%	23%	0.4%
Sir Benfro	5%	15%	5%	9%	24%	0.3%
Sir Gaerfyrddin	6%	17%	12%	9%	22%	0.6%
Abertawe	9%	19%	9%	10%	19%	0.5%
Castell-nedd Port Talbot	10%	24%	11%	11%	20%	0.7%
Pen-y-bont ar Ogwr	9%	23%	10%	10%	20%	0.4%
Bro Morgannwg	8%	15%	11%	8%	16%	0.5%
Caerdydd	10%	25%	9%	10%	19%	0.7%
Rhondda Cynon Taf	12%	21%	12%	11%	23%	0.5%
Merthyr Tudful	17%	23%	12%	12%	25%	0.8%
Caerffili	11%	22%	12%	11%	22%	0.5%
Blaenau Gwent	16%	22%	8%	12%	27%	0.7%
Torfaen	11%	21%	8%	12%	22%	0.7%
Sir Fynwy	4%	12%	9%	6%	15%	0.4%
Casnewydd	13%	19%	6%	12%	23%	0.9%

<sup>8</sup> Mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at gyfnod cyn cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb.

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2023 a mis Mai 2024; Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â'r hawl i fudd-daliadau plant: Ystadegau budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau y DU (Stat-Xplore) Chwefror 2024; Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) [Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn \(StatsCymru\)](#) (llyw.cymru) Ionawr 2024; Amcangyfrifon poblogaeth i gael amcangyfrifon y pen: Ionawr 2024 [Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU \(StatsCymru\)](#) Canol blwyddyn 2023; Amcangyfrifon aelwydydd i gael amcangyfrifon yn ôl aelwydydd: Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru: Cyfrifiad 2021 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) Mehefin 2022; Nifer y parseli bwyd sy'n cael eu dosbarthu i blant: [Ystadegau Diwedd Blwyddyn - Ymddiriedolaeth Trussell](#) (data crai) rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Cyfran y plant (o dan 16 oed) mewn teuluoedd ar incwm isel: [Plant mewn teuluoedd ar incwm isel: ystadegau ardal leol 2022 i 2023 - GOV.UK](#).

- 6.2 Roedd yr awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng: Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf, hefyd â chyfran uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol â hawl i gael budd-dal plant, a phlant sy'n byw mewn incwm isel cymharol.<sup>9</sup>
- 6.3 Yn ogystal, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf oedd yr awdurdodau lleol hefyd lle'r oedd cyfran y parseli bwyd a ddisbarthwyd i blant y pen yn uwch na'r cyfartaledd, sy'n dangos bod cymorth gan y Gronfa yn rhoi cefnogaeth i deuluoedd incwm isel gyda phlant.
- 6.4 O'r awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion y pen, roedd Merthyr Tudful, Wrecsam a Chastell-nedd Port Talbot hefyd ymhlith yr awdurdodau lleol â nifer uwch na'r cyfartaledd o barseli bwyd yn cael eu dosbarthu i blant, a nifer uwch na'r cyfartaledd o blant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, ac aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â hawl i gael budd-dal plant.

---

<sup>9</sup> Aelwydydd sy'n ennill llai na 60% o'r incwm canolrifol ar gyfer y flwyddyn gyfredol (yn yr achos hwn 2022).

## 7. Casgliadau

- 7.1 O ran dosbarthiad cyffredinol gwobrau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion yn ôl swm ar draws y gronfa gyfan, mae 95% o ddyfarniadau'r Gronfa ar gyfer Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a'r 5% sy'n weddill ar gyfer Taliadau Cymorth i Unigolion.
- 7.2 Fodd bynnag, nid oedd dosbarthiad y dyfarniadau yn ôl oedran yr un peth. Roedd dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng wedi'u cronni ymhlith unigolion iau, gyda 61% yn cael eu dyfarnu i unigolion rhwng 16 a 39 oed. Ar y llaw arall, rhannwyd Taliadau Cymorth i Unigolion bron yn gyfartal rhwng pobl ifanc 16-39 oed (49%) ac unigolion 40 oed a hŷn (51%).
- 7.3 O ran hygyrchedd, fe gafodd 99% o'r unigolion fynediad at y Gronfa ar-lein. Pan ddefnyddir ffôn, mae hyn yn tueddu i fod ymhlith grwpiau oedran hŷn.
- 7.4 Gostyngodd gwerth dyfarniadau'r Taliadau Cymorth mewn Argyfwng £6 miliwn rhwng 2022-23 a 2023-24. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y newid mewn polisi taliadau a daeth i rym o 1 Ebrill 2023, lle gostyngodd uchafswm nifer y taliadau o hyd at bum taliad i hyd at dri thaliad fesul hawliwr.
- 7.5 Y pedwar awdurdod lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng y pen yn 2023-24 oedd Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Roedd gan yr awdurdodau lleol hyn hefyd gyfrannau uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, cartrefi sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sydd â hawl i gael budd-dal plant, a phlant sy'n byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel. Mae'r data hwn yn dangos bod cymorth y Gronfa yn rhoi rhyddhad i deuluoedd incwm isel sydd â phlant.